




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Bwndeli Ilys – Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Eiriolaeth Teulu Cymorth Cyfreithiol

Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd: 13 Mawrth 2014





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Bwndeli Ilys – Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Eiriolaeth Teulu Cymorth Cyfreithiol

Papur ymgynghori wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk

Cynnwys

Pennod 1:	Crynodeb Gweithredol	3
Pennod 2:	Cyflwyniad	6
Pennod 3:	Bwndeli Llys – Y Cynigion	7
	Amdanoch chi	17
	Manylion cyswllt / Sut i ymateb	18
	Egwyddorion ymgynghori	19
Atodiad A:	Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerth y ffioedd gwrandawriad sefydlog atodol a gynigir o dan opsiwn 2.	20

Pennod 1: Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cynigion y Llywodraeth i newid y Cynllun Eiriolaeth Teulu (FAS) Cymorth Cyfreithiol fel y mae ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A¹ (PD 27A) ar ddefnyddio bwndeli llys mewn achosion teulu.
- 1.2 Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, pe gweithredir hwynt, yn effeithio ar gleientiaid cymorth cyfreithiol ac ni ddisgwylir i Opsiwn 1, a fyddai'n seilio taliadau atodol ar fwndel yr Eiriolwr (fel y diffinnir ym mharagraff 3.14), effeithio dim ar y taliadau cydnabyddiaeth cyffredinol i eiriolwyr. Fodd bynnag, mae cyflawni ein hamcanion allweddol (fel y nodir ym mharagraff 2.4) yn dibynnu ar ddatblygu fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli maint y bwndel hwnnw a beth fyddai'n ei gynnwys. Byddai'r dewis arall (Opsiwn 2), sy'n cynnig ailddosbarthu'r gwariant presennol ar fwndeli yn ffioedd gwrandawriad sefydlog atodol, i'w talu pan fyddai achos yn cyrraedd gwrandawriad penodedig, yn golygu gostyngiad yn lefel y taliadau ychwanegol y mae rhai eiriolwyr yn eu derbyn ar hyn o bryd mewn rhai achosion. Fodd bynnag, byddai'r ffioedd gwrandawriad sefydlog atodol newydd, a fyddai i'w talu o dan Opsiwn 2, yn daladwy mewn ystod ehangach o achosion, ac er y byddai peth ailddosbarthu rhwng eiriolwyr, nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith naill ar lefel y taliadau i eiriolwyr yn gyffredinol, ar gleientiaid nac ar y gronfa cymorth cyfreithiol.
- 1.3 Gwahoddir barn am y cwestiynau isod.

Cynigion ar gyfer diwygio

- 1.4 Mae Pennod 3 yn cyflwyno opsiynau arfaethedig y Llywodraeth i ddiwygio'r ffioedd atodol presennol ar gyfer bwndeli, sy'n daladwy o dan FAS, o ganlyniad i'r bwriad i gyfyngu ar faint bwndeli llys.

Asesiad o effaith

- 1.5 Mae'r Datganiad Cydraddoldeb ar wahân, sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn, yn cyflwyno ystyriaeth y Llywodraeth o'r effaith y byddai'r opsiynau diwygio arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb sef yn benodol ar eiriolwyr cymorth cyfreithiol teuluol, cleientiaid a'r gronfa cymorth cyfreithiol.

Ymgynghori

- 1.6 Byddai'r Llywodraeth yn croesawu ymatebion penodol i'r cwestiynau a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn gan bobl y bydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Dylech ymateb drwy'r templed ar-lein. Gall unrhyw un sydd â chwestiwn am broses yr ymgynghoriad neu gynnwys y papur yn ystod yr ymgynghoriad, eu cyflwyno'n uniongyrchol i Christine Okiya (Christine.Okiya@justice.gsi.gov.uk) neu eu hanfon i 4th floor, point 4.41, Ministry of Justice, 102 Petty France, Llundain SW1H 9AJ.

¹ Cyfarwyddyd Ymarfer (PD) 27A – Achosion Teulu: Bwndeli Llys, www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_27a

Rhestr o Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Pennod 3: Bwndeli Llys

Opsiwn 1

- C1.** A ydych yn cytuno y byddai cadw'r taliadau ar gyfer bwndeli llys ond seilio'r taliadau ar fwndel yr Eiriolwr yn ffordd effeithiol o gadw'r gost yn niwtral ond codi tâl priodol am gymhlethdod yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i PD 27A? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C2.** A oes unrhyw ddulliau / mesurau presennol y gellid eu defnyddio'n sail ar gyfer diffinio maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr? Eglurwch a rhowch resymau.
- Q3.** A oes unrhyw ddulliau / mesurau newydd neu ychwanegol y gellid eu cyflwyno i ddiffinio maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr? Eglurwch a rhowch resymau.
- C4.** A oes unrhyw systemau / gweithdrefnau y gellid eu defnyddio i gynorthwyo ystyriaeth y barnwr o restr dudalennau a'r mynegai o gynnwys bwndel yr Eiriolwr i sicrhau cost niwtral? Eglurwch a rhowch resymau.
- C5.** A oes unrhyw systemau / gweithdrefnau newydd neu ychwanegol y gellid eu cyflwyno i gynorthwyo ystyriaeth y barnwr o restr dudalennau a'r mynegai o gynnwys bwndel yr Eiriolwr i sicrhau cost niwtral? Eglurwch a rhowch resymau.

Opsiwn 2

- C6.** A ydych yn cytuno y byddai ailddosbarthu'r arian a delir ar hyn o bryd ar ffurf ffioedd atodol am fwndeli llys, yn ffioedd gwrandawriad atodol newydd a fyddai'n daladwy ym mhob achos oedd yn cyrraedd gwrandawriad penodedig, yn ffordd gost niwtral o godi tâl priodol am gymhlethdod yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i PD 27A? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cyfraith Teulu Gyhoeddus

- C7.** A ydych yn cytuno y dylai'r ffioedd atodol newydd sefydlog arfaethedig fod yn daladwy ond ar gyfer Gwrandawriad Datrys Materion a Gwrandawriad Terfynol? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C8.** A ydych yn cytuno y dylid talu ffioedd sefydlog atodol ar wahân mewn achosion o dan y Ddeddf Plant Arbennig ac achosion Cyfraith Gyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cyfraith Teulu Breifat

- Q9.** A ydych yn cytuno y dylai'r ffioedd sefydlog atodol newydd arfaethedig fod yn daladwy ond ar gyfer gwrandawriad lle caiff yr achos ei benderfynu? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C10.** A ydych yn cytuno y dylid talu ffioedd sefydlog atodol ar wahân mewn achosion Cyllid a Chyfraith Breifat sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C11.** A ydych yn cytuno y byddai'n anghymesur newid y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Teulu? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Effaith ar Gydraddoldeb

- C12.** Beth yn eich barn chi fyddai effaith pob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig ar gydraddoldeb yn achos unigolion gyda nodweddion a warchodir? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C13.** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir yr amrywiol effeithiau o dan bob un o'r diwygiadau arfaethedig a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C14.** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir yr holl effeithiau y byddai pob un o'r cynigion hyn yn ei gael? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C15.** A oes unrhyw fesurau i liniaru'r effeithiau nad ydym wedi eu hystyried?

Pennod 2: Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r PD 27A² presennol ar fwndeli llys, sydd ymhlith pethau eraill yn rhagnodi fformat a beth ddylai bwndel llys ei gynnwys, yn berthnasol fwy neu lai i'r rhan fwyaf o wrandawiadau teuluol yn yr Uchel Lys a'r Llysoedd Sirol. O dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) diwygiedig³ sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd, mae hefyd yn berthnasol i achosion cyfraith teulu gyhoeddus a wrandewir yn y Llys Achosion Teulu (FPC). Yn y dyfodol, disgwylir iddo fod yn berthnasol i'r rhan fwyaf o achosion teulu a wrandewir yn y Llys Teulu newydd a ddaw i rym ar 22 Ebrill.
- 2.2 Ar hyn o bryd ni chyfyngir yn benodol ar ba mor fawr y gall bwndel llys a gyflwynir ar gyfer unrhyw wrandawriad neilltuol fod. O dan y FAS⁴, mae gan eiriolwyr hawl i dderbyn ffioedd sefydlog atodol mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat lle mae'r bwndel llys yn 351 tudalen neu fwy. Gwneir taliadau gwahanol i eiriolwyr yn ôl a yw'r gwrandawriad yn un interim neu derfynol.
- 2.3 Mae angen diwygio rhywfaint ar PD 27A yn awr i adlewyrchu'r disgwyliad y bydd y Llys Teulu newydd yn cael ei gyflwyno'n nes ymlaen eleni. Fel rhan o hyn, mae Llywydd yr Adran Deulu wedi cadarnhau ei fod yn bwriadu lleihau maint y bwndel llys i 350 tudalen ar y mwyaf yn y rhan fwyaf o achosion er mwyn symleiddio'r gweithdrefnau a chanolbwyntio sylw'r llys. Unwaith y gweithredir hyn, byddai hyn fwy neu lai'n atal eiriolwyr rhag hawlio'r ffioedd atodol presennol am fwndeli o dan y FAS yn y rhan fwyaf o achosion ac, felly, efallai'n lleihau lefel y taliadau y byddai eiriolwyr wedi eu derbyn am achos fel arall. Er y gallai fod cyfiawnhad dros hyn os oedd hefyd angen gwneud llai o waith yn gyffredinol, pwrpas ffioedd atodol yw eu bod yn un ffordd o dalu eiriolwyr am ddelio ag achosion cymhleth, yn enwedig rhai sy'n golygu adolygu ac asesu cyfrolau lawer o dystiolaeth / ymchwil ayb sy'n rhaid ei wneud i sicrhau y bydd y gwrandawriad yn effeithiol. Oherwydd nad yw lleihau maint y bwndeli llys eu hunain o reidrwydd yn effeithio ar hyn, mae Pennod 3 yn cyflwyno opsiynau i ddiwygio'r FAS fel bod eiriolwyr yn gallu parhau i dderbyn tâl priodol am eu gwaith a, chyn belled ag y bo'n bosibl, sicrhau y targedir taliadau at achosion mwy cymhleth.
- 2.4 Y bwriad yw gweithredu'r newidiadau 'o ganlyniad' hyn i'r FAS mewn ffordd sydd:
- yn gost niwtral;
 - yn osgoi cyflwyno unrhyw risg na ellir ei rheoli i stiwardiaeth y gronfa cymorth cyfreithiol;
 - cyn belled ag y bo'n bosibl, o fewn y paramedrau hynny;
 - yn canolbwyntio taliadau priodol ar achosion cymhleth; ac sydd
 - yn cefnogi amcanion diwygiadau'r Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol (FJR).

² Cyfarwyddyd Ymarfer (PD) 27A – Achosion Teulu: Bwndeli Llys, www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_27a

³ <https://www.justice.gov.uk/protecting-the-vulnerable/care-proceedings-reform>

⁴ Atodlen 3 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013, www.legislation.gov.uk/uksi/2013/422/contents/made

Pennod 3: Bwndeli Llys – Y Cynigion

Yr achos dros ddiwygio

3.1 Nodir y ffioedd atodol presennol sy'n daladwy am fwndeli llys ar gyfer achosion teulu cyhoeddus a phreifat cymorth cyfreithiol yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013⁵. Y FAS yw'r cynllun yr effeithir arno gan y bwriad i leihau bwndeli llys. Gwneir taliadau o dan y cynllun hwn ar sail ffioedd sefydlog neu safonol am weithgareddau neilltuol gyda darpariaeth benodol i dalu ffioedd atodol ar sail nifer y tudalennau mewn bwndel llys, gyda ffioedd atodol uwch i'w talu lle mae'r bwndel yn fwy (gweler *Tabl 1* isod). Defnyddiwyd y cysylltiad hwn i ddarparu tâl ychwanegol, yn enwedig mewn achosion cymhleth, gan ddefnyddio maint y bwndel fel mesur procsi am lwyth gwaith a chymhlethdod.

3.2 O dan gontractau presennol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), cyfyngir fel a ganlyn ar ffioedd atodol am fwndeli. Mewn:

- *achos cyfraith gyhoeddus*: gellir ond hawlio taliadau atodol am fwndel ar gyfer dau wrandawriad interim ar y mwyaf a rhaid i bob un naill ai fod yn Gynhadledd Rheoli Achos, yn Wrandawriad Datrys Materion neu'n wrandawriad a restrir i wrando ar dystiolaeth a herir; a
- *achos cyfraith breifat*: gellir ond hawlio taliadau atodol am fwndel mewn un gwrandawriad interim ym mhob achos (er bod unrhyw agweddau sy'n ymwneud â phlant a chyllid yn cael eu trin ar wahân) ac ni ellir hawlio taliadau am fwndeli llys o gwbl mewn achosion cam-drin domestig.⁶ Fodd bynnag, gall eiriolwyr hawlio ffioedd atodol gwrandawriad terfynol ar wahân lle mae gan achosion wrandawriadau terfynol ar wahân ar gyfer materion Cyllid a Chyfraith Breifat yn ymwneud â Phlant (PLC) neu lle mae gan yr achos ddau wrandawriad PLC terfynol⁷ (pe cynhelir gwrandawriad Canfod Ffeithiau, caiff ei dalu fel gwrandawriad terfynol).

Ar ddiwedd y gwrandawriad, bydd unrhyw ffioedd atodol am fwndel a hawllir yn cael eu dilysu gan y barnwr, ynghyd â materion fel pa mor hir a barodd y gwrandawriad ac a oedd unrhyw un o'r ffactorau sy'n denu ffioedd atodol ar wahân am gymhlethdod yn bresennol, ar ffurflen EX506 (y Ffurflen Presenoldeb Eiriolwyr)⁸, gan felly ddarparu dilysrwydd annibynnol cost-ffeithiol a rheolaeth dros wariant yn y cyswllt hwn.

3.3 Dangosir y ffioedd atodol presennol am fwndeli sy'n daladwy mewn achosion cyfraith teulu cyhoeddus a phreifat yn *Nhabl 1*.

⁵ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2013/422/pdfs/ukxi_20130422_en.pdf

⁶ Gweler paragraffau 7.151 – 7.153 y 2013 Standard Civil Contract Specification: Category Specific Rules – Family specification <https://www.justice.gov.uk/downloads/legal-aid/civil-contracts/family-specification-february-2013.pdf>

⁷ <http://www.justice.gov.uk/downloads/legal-aid/funding-code/costs-assessment-guidance-2013-standard-contract.pdf> - para 14.10

⁸ <http://www.justice.gov.uk/downloads/forms/legal-aid/advocates-attendance-form-0212.pdf>

Tabl 1: Ffioedd atodol presennol a delir – taliadau am fwndeli llys⁹

Math o wrandawriad	Nifer y tudalennau	Ffi sefydlog
Gwrandawriad interim	351-700 tudalen	£59.40
	701-1400 tudalen	£89.10
	Dros 1400 tudalen	£89.10
Gwrandawriad Terfynol	351-700 tudalen	£159.30
	701-1400 tudalen	£239.40
	Dros 1400 tudalen	£318.60

- 3.4 Mae'r bwriad i gyflwyno uchafswm o 350 tudalen mewn bwndel llys, a disgwylir y bydd hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o wrandawriadau teulu, yn golygu na fydd y rhan fwyaf o achosion yn croesi'r trothwyon taliadau presennol am fwndeli llys lle mae eiriolwyr yn derbyn taliadau ychwanegol am achosion perthnasol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fodd bynnag nad yw lleihau maint y bwndel llys, o reidrwydd, yn golygu llai o lwyth gwaith neu lai o gymhlethdod i'r eiriolwr. Felly mae angen diwygio'r FAS i sicrhau bod eiriolwyr yn parhau i dderbyn tâl priodol am y gwaith sydd angen iddynt ei wneud i baratoi achos am wrandawriad penodol yn dilyn gweithredu'r newidiadau arfaethedig i PD 27A.
- 3.5 O ystyried yr egwyddorion cyffredinol (paragraff 2.4), un o'r prif gyfyngiadau ar unrhyw ddiwygio yw bod angen diogelu gwariant y gronfa cymorth cyfreithiol a sicrhau bod gan unrhyw system newydd fesurau rheoli priodol yn eu lle i reoli'r risg bosibl o gynyddu costau'r gronfa cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, yr her yw cyflawni hyn mewn ffordd sy'n cyfyngu ar unrhyw effaith ar eiriolwyr ac nad yw'n mynd yn groes i amcanion cyffredinol diwygiadau'r FJR.

Ymgynghori blaenorol

- 3.6 Mae'r Llywodraeth eisoes wedi holi barn rhanddeiliaid am sut i newid y FAS i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i PD 27A ym Mhennod 4 ei bapur ymgynghori *Supporting the introduction of the Single Family Court – Proposed changes to Family legal aid remuneration scheme* a gyhoeddwyd ar 28 Hydref 2013. O ystyried mai pwrpas y ffi atodol bresennol am fwndeli llys oedd cynnig un ateb i'r cymhlethdod a'r llwyth gwaith oedd yn gysylltiedig â pharatoi achos, roedd y papur hwnnw yn holi barn gychwynnol ynghylch oni fyddai ateb arall yn werth ei ystyried, sef ailstrwythuro taliadau am fwndeli llys, er enghraifft drwy ailddosbarthu gwerth y taliadau bwndel o fewn y taliadau atodol presennol am gymhlethdod o dan y FAS¹⁰. Gwnaed yr awgrym hwn ar y sail y byddai newid o'r fath yn defnyddio fframwaith sy'n bodoli'n barod a dull dilysu annibynnol ond, ar yr un pryd, yn parhau i gynnig taliadau priodol mewn achosion cymhleth. Roedd y papur hefyd yn gwahodd awgrymiadau ar gyfer dulliau posibl eraill i fodloni'r egwyddorion cyffredinol.
- 3.7 Fel y crynhoir yn ymateb y Llywodraeth¹¹, ar y cyfan barn y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwnnw oedd nad oedd cymhlethdod wedi'i gyfyngu i'r ffactorau

⁹ Gweler tablau 1(d) a 2(e) o Atodlen 3 y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013

¹⁰ Gweler tablau 1(c) a 2(d) o Atodlen 3 y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013

¹¹ Supporting the introduction of the single Family Court – Changes to the family legal aid remuneration schemes https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/276343/supporting-introduction-single-family-court-response.pdf

penodedig oedd yn berthnasol i'r ffioedd atodol ar wahân presennol am gymhlethdod. Yn gyffredinol, roeddent o blaid cadw rhyw fath o dâl ar wahân i dalu eiriolwyr mewn achosion eraill lle nad oedd y ffactorau hynny'n bresennol ond lle'r oedd dal angen cryn dipyn o waith darllen / dogfennau cyn y gwrandawriad. Yn y cyd-destun hwn, roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Bar ar Gyfraith Deuluol (FLBA) a Chyngor a Phenderfyniad y Bar, fwy neu lai o blaid taliadau oedd yn gysylltiedig â bwndel "cysgodol" (Eiriolwr), yn cynnwys mynegai llawn o'r holl bapurau a gyflwynir i'r bartïon a / neu'r holl ddarllen angenrheidiol a wnaeth yr Eiriolwr i baratoi'r achos y gallai'r barnwr ei ddilysu yn y gwrandawriad perthnasol.

- 3.8 Er nad oedd yr ymgynghoriad blaenorol yn cynnig unrhyw ddiwygiadau penodol ar y pryd, oherwydd nid oedd y newidiadau manwl i PD 27A wedi eu cyhoeddi'n ffurfiol, roedd yn cadarnhau bod y Llywodraeth wedi ystyried cysylltu'r ffi atodol bresennol am fwndel i faint o ddeunydd y bu'n rhaid i'r Eiriolwr ei ddarllen i baratoi'r achos ar gyfer gwrandawriad neilltuol. Fel y nodir yn y papur ymgynghori hwnnw, un o'r prif gyfyngiadau ar fabwysiadu dull o'r fath oedd bod angen fframwaith effeithiol gyda mesurau priodol i reoli'r hawliadau a fyddai'n cael eu gwneud. O ystyried y gallai bwndel, gan gynnwys yr holl bapurau a gyflwynir i bartïon neu a ddarllenir gan Eiriolwr dros y cyfnod y byddai'r achos yn para, gynyddu nifer yr achosion a fyddai'n gymwys i dderbyn tâl a hefyd maint y bwndel yn yr achosion hynny, gallai lefel gyffredinol y tâl ac felly'r gost i'r gronfa cymorth cyfreithiol hefyd gynyddu. Yn ogystal, oherwydd y byddai'n golygu ystyried papurau na fyddai o reidrwydd eu hangen ar gyfer gwrandawriad llys, roedd yn aneglur pryd hynny sut fyddai modd dilysu bwndel yr Eiriolwr heb roi baich ychwanegol ar y farnwriaeth. Gan hynny, roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad blaenorol a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr yn cadarnhau nad oedd y Llywodraeth yn ystyried bod hyn yn opsiwn hyfyw.
- 3.9 Yn dilyn hyn, ac mewn trafodaethau pellach gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, awgrymodd y Cyrff Cynrychiadol¹² y gellid dilysu maint bwndel yr Eiriolwr fel rhan o'r broses wrandawriad arferol. Byddai'r barnwr, fel sy'n digwydd yn barod gyda'r bwndel llys, yn dilysu hyn ar y Ffurflen Presenoldeb Eiriolwyr. Mae hyn ar y sail fod bwndel yr Eiriolwr yn debygol efallai o fod yn elfen allweddol o unrhyw wrandawriad, gyda dogfennau ychwanegol yn cael eu cyflenwi o'r bwndel hwnnw i gyd-fynd â rhai yn y bwndel llys yn ystod y gwrandawriad er mwyn cefnogi cyflwyniadau'r Eiriolwr. Pe bai'r dogfennau ym mwndel yr Eiriolwr yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn y gwrandawriad yna, fel yr awgrymir, gallai dilysu o bosibl olygu dim neu fawr ddim gwaith ychwanegol i'r barnwr.
- 3.10 Mae awgrymiadau cychwynnol gan yr uwch-farnwriaeth yn cadarnhau y gallai fod rhai dogfennau o fwndel yr Eiriolwr na fyddai ar y dechrau'n rhan o fwndeli llys yn y dyfodol ond a drafodir yn y gwrandawriad ac a ychwanegir wedyn at fwndel y llys. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fyddai'r rhain yn cynrychioli cyfran helaeth o'r dogfennau ym mwndel yr Eiriolwr. Ar hyn o bryd, felly, mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn aneglur ynghylch sut fyddai maint a chynnwys bwndel arfaethedig yr Eiriolwr yn cael ei reoli mewn ffordd na fyddai'n rhoi baich ychwanegol ar y llys, y farnwriaeth neu'r LAA. Fodd bynnag, mae'n sicr yn meddwl y byddai'n werth chweil ymchwilio ymhellach i hyn.

¹² Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, Cymdeithas y Bar ar Gyfraith Deuluol, Cymdeithas y Cyfreithwyr Plant a Phenderfyniadau

Y Cynigion

- 3.11 O ystyried bod angen, yn anad dim, cadw pethau'n gost niwtral ac osgoi cyflwyno risg na ellir ei rheoli i'r gronfa, mae'r Llywodraeth yn holi barn am ddau opsiwn i ateb y newidiadau disgwylidig i faint bwndeli llys. Mae'r cyntaf yn golygu seilio taliadau i'r dyfodol am fwndeli ar faint bwndel yr Eiriolwr ond mae hyn yn dibynnu ar gyflwyno mesurau priodol i reoli maint a chynnwys y bwndeli hynny er mwyn osgoi rhoi baich ychwanegol ar y llys, y farnwriaeth neu'r LAA. Byddai'r ail yn golygu ailddosbarthu'r gwariant presennol ar ffioedd bwndel atodol yn ffioedd gwrandawriad atodol newydd, i'w talu ym mhob achos oedd yn cyrraedd gwrandawriad penodedig.

Opsiwn 1 - Bwndel yr Eiriolwr

- 3.12 O ystyried yr egwyddorion cyffredinol (paragraff 2.4), un o'r prif gyfyngiadau ar unrhyw ddiwygio yw bod angen diogelu gwariant y gronfa cymorth cyfreithiol a sicrhau bod gan unrhyw system newydd fesurau rheoli priodol yn eu lle i reoli'r risg bosibl o gynyddu costau'r gronfa cymorth cyfreithiol. Yng nghyd-destun bwndel yr Eiriolwr, y prif ofynion yw cael mesur gwrthrychol a dull effeithiol ac annibynnol o ddilysu.
- 3.13 Darperir y mesur gwrthrychol ar gyfer y taliadau atodol presennol am fwndeli llys gan PD 27A, sy'n nodi cynnwys y bwndel llys. Darperir y dull dilysu gan y barnwr yn y gwrandawriad a fydd yn gweld y bwndel llys ac a fydd yn cael ei gyfeirio at ddogfennau yn y bwndel hwnnw fel y gall farnu maint y bwndel. Cadarnheir hyn wedyn ar y Ffurflen Presenoldeb Eiriolwyr. Oherwydd na fyddai'n rhan ffurfiol o broses y llys, ni fyddai bwndel arfaethedig yr Eiriolwr yn awtomatig yn ddarostyngedig i unrhyw fesurau rheoli / dull dilysu tebyg. I fodloni gofynion mesur gwrthrychol a dull dilysu effeithiol ac annibynnol, byddai angen cael fframwaith priodol i reoli maint a chynnwys bwndeli, fel y gellid defnyddio bwndel yr Eiriolwr yn sail ar gyfer taliadau atodol am fwndeli.

Cynnwys Bwndel yr Eiriolwr

- 3.14 Er y byddai'n rhesymol disgwyl i Eiriolwyr fod ag ystod o gofnodion / ffeiliau / dogfennau ar achos penodol yn eu mediant, o dan ddarpariaethau presennol PD 27A ar hyn o bryd dim ond y rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i wrandawriad neilltuol y dylid eu cynnwys ym mwndel y llys. Yn y cyd-destun hwn ni ddylid cynnwys copïau o nodiadau ar ymweliadau cyswllt, er enghraifft, ym mwndel y llys oni bai fod y barnwr wedi cyfarwyddo hynny'n benodol. Felly hefyd, credwn na ddylai bwndel arfaethedig yr Eiriolwr o reidrwydd gynnwys pob dogfen a gyflwynwyd erioed neu hyd yn oed a ddarllenwyd mewn achos. Yn hytrach dylai gynnwys y dogfennau hynny sydd, er na fyddent o reidrwydd yn y bwndel llys newydd, er hynny'n debygol o fod eu hangen i gefnogi cyflwyniadau'r Eiriolwr ar y materion sy'n cael eu hystyried mewn gwrandawriad neilltuol.
- 3.15 Gallai'r rhestr ddogfennau a fyddai'n cael eu cyflwyno'n bresennol ym mwndel y llys ar gyfer gwrandawriad neilltuol ac y hawlir tâl amdanynt o dan PD 27A yn ei ffurf bresennol fod yn ganllaw perthnasol i ba gynnwys a ddylai fod yn sail am dâl. Mae'r Llywodraeth yn holi barn am hyn neu am systemau / gweithdrefnau priodol eraill y gellid eu cyflwyno i ddiffinio cynnwys bwndel yr Eiriolwr mewn ffordd a fyddai'n sicrhau taliadau priodol ac yn rhoi sicrwydd y cedwir pethau'n gost niwtral.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

- C1.** A ydych yn cytuno y byddai cadw'r taliadau ar gyfer bwndeli llys ond seilio'r taliadau ar fwndel yr Eiriolwr yn ffordd effeithiol o gadw'r gost yn niwtral ond codi tâl priodol am gymhlethdod yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i PD 27A? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C2.** A oes unrhyw ddulliau / mesurau presennol y gellid eu defnyddio'n sail ar gyfer diffinio maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr? Eglurwch a rhowch resymau.
- C3.** A oes unrhyw ddulliau / mesurau newydd neu ychwanegol y gellid eu cyflwyno i ddiffinio cynnwys bwndel yr Eiriolwr? Eglurwch a rhowch resymau.

Dull annibynnol o ddilysu

- 3.16 Er bod y Cyrff Cynrychiadol wedi awgrymu y gallai gynnwys a maint bwndel yr Eiriolwr gael ei ddilysu gan y barnwr yn y gwrandawriad drwy gyfeirio at y rhestr dudalennau a'r mynegai o'r cynnwys (a fyddai, fwy neu lai, yr un rhestr a gyflenwir ar gyfer y bwndel llys presennol), mae'n aneglur ar ba sail y byddai'r barnwr yn gallu cadarnhau cywirdeb y rhestr honno. Mae trafodaethau gyda'r uwch-farnwriaeth wedi cadarnhau y gallai fod rhai achosion, er enghraifft, lle byddai'r gwrandawriad yn trafod dogfennau penodol na fyddai wedi eu cynnwys ym mwndel y llys (naill ai oherwydd eu bod wedi eu heithrio'n benodol neu efallai oherwydd y trothwy maint newydd arfaethedig). Yn yr achosion hyn byddai'r barnwr yn gweld y dogfennau penodol hynny a gallent, maes o law, gael eu hychwanegu at fwndel y llys ei hun. Fodd bynnag, ni fyddai hynny o reidrwydd yn golygu bod y barnwr yn adolygu unrhyw ddogfennau eraill ym mwndel yr Eiriolwr. Oni bai ei fod yn gwneud hynny, a allai effeithio ar amseroedd y gwrandawriad, ni fyddai gan y barnwr unrhyw beth i seilio ei asesiad naill ai o faint neu o berthnasedd cynnwys y bwndel hwnnw arno heblaw'r rhestr dudalennau neu fynegai arfaethedig o'r cynnwys.
- 3.17 Byddai hyn yn amlwg yn wahanol i'r dull presennol sy'n seiliedig ar y bwndeli llys eu hunain. Ar hyn o bryd, yn ogystal â'r Eiriolwr yn cyflenwi rhestr dudalennau a mynegai o gynnwys y bwndel¹³, bydd gan y barnwr hefyd gopi o'r bwndel llawn o'i flaen yn y gwrandawriad ac mae'n bosibl y gallai gael ei gyfeirio at amryw o ddogfennau yn y bwndel yn ystod y gwrandawriad, i gefnogi cyflwyniad yr Eiriolwr. O ganlyniad, dylai'r barnwr fod yn gallu llunio barn yn hawdd a chyflym ynghylch maint y bwndel ac a oedd ei gynnwys, yn gyffredinol, yn berthnasol i'r gwrandawriad.
- 3.18 O dan system yn seiliedig ar fwndel arfaethedig yr Eiriolwr, mae'n bosibl y byddai'r barnwr felly'n gwybod llai am gynnwys cyffredinol y bwndel hwnnw nag am fwndel y llys ac, o ganlyniad, gallai gynnig llai o reolaeth nag ar hyn o bryd. Felly, mae'r Llywodraeth yn holi barn am brosesau dilysu priodol y gellid eu defnyddio i ddilysu maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr.
- 3.19 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fyddai'r opsiwn hwn yn effeithio ar:
- (a) yr amgylchiadau presennol a nodir yng nghontractau'r LAA lle gellid hawlio taliad am fwndel¹⁴;
 - (b) y trothwyon presennol ar gyfer hawlio taliadau atodol am fwndel; neu

¹³ Paragraff 4.1 o PD27A

¹⁴ Gweler paragraff 3.1 y papur ymgynghori hwn

- (c). Iefelau presennol y ffioedd bwndel atodol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

- C4.** A oes unrhyw systemau / gweithdrefnau y gellid eu defnyddio i gynorthwyo ystyriaeth y barnwr o restr dudalennau a'r mynegai o gynnwys bwndel yr Eiriolwr i sicrhau cost niwtral? Eglurwch a rhowch resymau.
- C5.** A oes unrhyw systemau / gweithdrefnau newydd neu ychwanegol y gellid eu cyflwyno i gynorthwyo ystyriaeth y barnwr o restr dudalennau a'r mynegai o gynnwys bwndel yr Eiriolwr i sicrhau cost niwtral? Eglurwch a rhowch resymau.

Opsiwn 2 - Ffioedd gwrandawriad atodol newydd

- 3.20 Ac eithrio ffioedd atodol, caiff Eiriolwyr eu talu o dan y FAS ar sail ffioedd sefydlog sy'n daladwy yn ôl faint mae'r gwrandawriad yn para. Telir gwahanol ffioedd sefydlog pan fo'r gwrandawriad yn para hyd at awr (Uned Gwrandawriad 1) a hyd at 2.5 awr (Uned Gwrandawriad 2). O dan gontractau LAA presennol, os yw gwrandawriad yn para mwy na 2.5 awr, gall yr eiriolwr hawlio uchafswm o ddwywaith y gyfradd Uned Gwrandawriad 2. Er y telir gwahanol ffioedd sefydlog gan ddibynnu, er enghraifft, ai achos cyfraith deuluol gyhoeddus neu breifat ydyw a / neu ar y materion penodol sy'n berthnasol i'r achos¹⁵, ym mhob achos unwaith fydd gwrandawriad yn mynd dros y trothwy perthnasol, telir y ffi benodol sefydlog waeth pa mor hir y bydd yn para. Er enghraifft, mewn gwrandawriad sy'n para 2.4 awr, telir yr un faint yn union â gwrandawriad sy'n para ychydig dros awr. Mae'r cynllun felly'n dibynnu ar elfen o "gollu â'r naill law ac ennill â'r llall" i sicrhau taliadau priodol yn gyffredinol. Byddai aiddosbarthu'r arian a delir ar hyn o bryd drwy ffioedd bwndel atodol yn ffi(oedd) gwrandawriad sefydlog atodol, a fyddai'n daladwy ym mhob achos lle cynhelir gwrandawriad penodedig, yn gyson â'r dull hwn ac yn cadw taliadau ar wahân ar gyfer achosion cymhleth a hefyd yn diogelu'r gronfa cymorth cyfreithiol. Er y byddai hyn yn golygu lleihad yn lefel y taliadau ychwanegol a dderbynnir gan rai Eiriolwyr mewn rhai achosion ar hyn o bryd, byddai'r ffioedd gwrandawriad sefydlog atodol newydd a fyddai'n daladwy o dan yr opsiwn hwn yn daladwy mewn ystod ehangach o achosion ac, er y gallai fod peth aiddosbarthu rhwng eiriolwyr, nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith ar lefel y taliadau a delir i eiriolwyr yn gyffredinol.

Gwaith cyfraith gyhoeddus

- 3.21 Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO), fydd yn ôl y disgwyl yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol fel PLO 2014 pan ddaw'r Llys Teulu newydd i rym, yn seiliedig ar dri phrif wrandawriad yn y rhan fwyaf o achosion: y Gwrandawriad Rheoli Achos cychwynnol, y Gwrandawriad Datrys Materion a'r Gwrandawriad Terfynol. Ceisiwn farn felly am y cynnig bod gwariant presennol y Gronfa ar fwndeli llys mewn gwaith cyfraith gyhoeddus yn cael ei aiddosbarthu a'i ddefnyddio i gyflwyno ffioedd atodol newydd i'w talu ym mhob achos sy'n cyrraedd un neu fwy o'r gwrandawriadau penodedig. Yn y cyd-destun hwn, byddid yn talu'r ffioedd gwrandawriad atodol newydd ar gyfer:

- (a) Y Gwrandawriad Rheoli Achos cychwynnol a / neu Wrandawriad Datrys Materion; a

¹⁵ Mae gwahanol ffioedd sefydlog yn daladwy, er enghraifft, os yw'r achos yn ymwneud ag achos gofal neu oruchwyliaeth o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1931 neu achosion eraill o dan Ran V y Ddeddf honno.

(b) Y Gwrandawriad Terfynol.

- 3.22 Disgwylir y bydd y PLO 2014 yn gofyn bod y Gwrandawriad Rheoli Achos cychwynnol yn cael ei gynnal rhwng 12-18 diwrnod ar ôl i'r achos gychwyn. Er y bwriad yw y bydd y gwrandawriad hwn yn darparu rheolaeth achos ystyrllon i sicrhau bod pethau'n symud yn eu blaen heb fod angen gwrandawriadau interim pellach, mae'n aneglur faint o waith y byddai angen i'r Eiriolwr fod wedi'i wneud ar y pwynt hwnnw i gyfiawnhau unrhyw dâl atodol. Ar hyn o bryd, o'r holl achosion a gychwynnir nid yw 6% yn symud ymhellach na'r gwrandawriad cyntaf a dim ond tua 12% o'r rhain sy'n derbyn unrhyw ffioedd bwndel atodol ar hyn o bryd. Gallai darparu bod pob achos yn derbyn ffi atodol am y Gwrandawriad Rheoli Achos, felly, gynyddu nifer yr achosion a fyddai'n derbyn tâl interim fel bod ffi atodol interim lai felly'n cael ei thalu nag y byddai'n digwydd fel arall.
- 3.23 Rhoddir manylion am y ffioedd sefydlog a fyddai'n daladwy o dan yr opsiwn hwn ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus teuluol pe bai ffi sefydlog atodol yn cael ei thalu am y Gwrandawriad Rheoli Achos cychwynnol, yn *Nhabl 2* isod.

Tabl 2: Ffioedd gwrandawriad atodol mewn achosion Cyfraith Gyhoeddus os yw Gwrandawriad Rheoli Achos cychwynnol wedi'i gynnwys

Math o wrandawriad	Ffi am Wrandawriad Rheoli Achos	Ffi am Wrandawriad Datrys Materion	Ffi am Wrandawriad Terfynol
Deddf Plant Arbennig	£35.45	£35.45	£181.81
Achosion Cyfraith Gyhoeddus eraill o dan y Ddeddf Plant	£19.39	£19.39	£118.35

- 3.24 O ystyried mai'r nod yw canolbwyntio'r taliadau, cyn belled ag y bo'n bosibl, ar achosion mwy cymhleth ac, felly, yn ddiethriad felly, ar achosion hirach, ni chredwn y byddai cyfiawnhad dros hyn. I'r gwrthwyneb, mae'r Gwrandawriad Datrys Materion, sydd fel arfer yn digwydd fisoedd lawer ar ôl i achos gychwyn, yn lle llawer mwy rhesymegol i dargedu taliadau. O dan y PLO diwygiedig, mae angen i'r eiriolwr fod wedi cwblhau'r rhan fwyaf os nad y cwbl o'r gwaith paratoi angenrheidiol ar gyfer achos cyn y gwrandawriad hwnnw. Gan hynny, byddai aiddosbarthu gwariant presennol y Gronfa ar ffioedd bwndel atodol am wrandawriadau interim mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn un ffi atodol (i'w thalu yn y Gwrandawriad Datrys Materion; byddai'r ffi gwrandawriad atodol ar wahân yn seiliedig ar y gwariant presennol ar fwndeli mewn gwrandawriadau terfynol yn yr achosion hyn) i'w thalu yn y gwrandawriad terfynol lle daeth yr achos i ben heb dalu unrhyw ffi yn y Gwrandawriad Rheoli Achos cychwynnol, yn sicrhau bod eiriolwyr yn derbyn tâl ar y pwynt lle mae'n debyg bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i wneud. I adlewyrchu'r arfer presennol, lle mae achos yn setlo yn y Gwrandawriad Datrys Materion, telir am y gwrandawriad fel gwrandawriad terfynol a byddai'r ffi atodol am Wrandawriad Terfynol yn daladwy yn lle'r ffi atodol am Wrandawriad Datrys Materion.
- 3.25 Telir y rhan fwyaf o'r ffioedd bwndel presennol mewn achosion cyfraith gyhoeddus ar gyfer achosion o dan y Ddeddf Plant Arbennig (SCA) ac mae'r gwariant presennol ar achosion Cyfraith Gyhoeddus eraill o dan y Ddeddf Plant (OPC) yn gymharol isel. Gan hynny, byddai cyflwyno'r un ffioedd am Wrandawriad Datrys Materion â Gwrandawriad Terfynol, am y ddau fath o achos, yn golygu bod

gwrandawiadau SCA yn derbyn ffioedd atodol llawer llai na phe bai ffioedd gwahanol yn berthnasol i bob math. Felly, o dan yr opsiwn hwn, cynigir cyflwyno gwahanol ffioedd atodol ar gyfer achosion SCA ac OPC i gadw'r dosbarthiad presennol o daliadau ar draws y mathau hyn o achosion.

- 3.26 Rhoddir manylion am y ffioedd sefydlog a fyddai'n daladwy o dan yr opsiwn hwn ar gyfer achosion cyfraith deuluol gyhoeddus o dan yr opsiwn hwn, yn *Nhabl 3* isod.

Tabl 3: Gwrandawiadau Cyfraith Gyhoeddus - Ffioedd atodol arfaethedig

Math o wrandawriad	Ffi am Wrandawriad Datrys Materion	Ffi am Wrandawriad Terfynol
SCA	£74.73	£181.81
OPC	£47.74	£118.35

Gwaith cyfraith breifat

- 3.27 Yn dilyn gweithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) yn Ebrill 2013, nid oes cymorth cyfreithiol ar gael i'r rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat mwyach. Fodd bynnag, mae'n parhau i gael ei gynnig lle mae'r achos yn cynnwys risg o drais yn y cartref neu gam-drin plant, ac i blentyn sy'n un o'r partion mewn achos. Mae ar gael hefyd ar gyfer rhai gwaharddebau amddiffyn a gorchmynion amddiffyn rhag priodas dan orfod mewn achosion lle cafodd blant eu dwyn ymaith yn anghyfreithlon, ar gyfer y broses gyfryngu a chytundebau rhyngwladol ac UE penodedig yn ymwneud â phlant neu gynnal plant.
- 3.28 Yn wahanol i achosion cyfraith gyhoeddus, ar hyn o bryd nid oes unrhyw strwythur gweithdrefnol cyffredinol ar gyfer datrys achosion cyfraith breifat y gellid ychwanegu unrhyw ffioedd newydd ato. Yn hytrach, o gofio'n enwedig y gall achosion cyfraith breifat olygu amryw o wahanol wrandawiadau interim, ymddengys mai doeth fyddai canolbwyntio taliadau ar y pwynt lle daw'r achos i ben.
- 3.29 Yn y cyd-destun hwn, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol mai bwriad y Gweithgor Cyfraith Breifat yw annog defnydd mwy effeithiol o amser y llys a setlo achosion yn gynt, gyda'r nod o ddatrys tua 50% o achosion yn Apwyntiad Datrys y Gwrandawriad Cyfarwyddyd Cyntaf. Mae'r Llywodraeth yn gefnogol iawn o hyn ac felly, o dan yr opsiwn hwn, byddai'r ffi gwrandawriad atodol newydd arfaethedig yn daladwy naill ai yn Apwyntiad Datrys y Gwrandawriad Cyfarwyddyd Cyntaf, pe bai'r achos yn cael ei benderfynu ar y pwynt hwnnw, neu yn y gwrandawriad nesaf lle byddai'r achos yn cael ei benderfynu. Ceisiwn eich barn am y cynnig y dylid canolbwyntio'r holl wariant taliadau bwndel atodol mewn achosion cyfraith breifat ar un taliad gwrandawriad sefydlog atodol newydd, i'w dalu yn y gwrandawriad lle byddai'r achos yn cael ei benderfynu.
- 3.30 Gwneir y rhan fwyaf o'r taliadau bwndel presennol mewn achosion cyfraith breifat o dan y Ddeddf Plant (PLC) - mae'r gwariant presennol ar faterion Cyllid yn gymharol isel. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion gyda gwrandawiadau PLC a allai ddenu'r tâl newydd yn sylweddol uwch na'r nifer gyda gwrandawiadau Cyllid. Byddai cyflwyno'r un taliad gwrandawriad sefydlog atodol yn y ddau fath o achos yn golygu bod achosion Cyllid yn derbyn ffioedd atodol llawer llai na phe bai ffioedd gwahanol yn berthnasol i bob math. I gadw'r dosbarthiad presennol o wariant ar draws y

mathau hyn o achosion, felly, cynigir cyflwyno ffioedd gwrandawriad atodol gwahanol mewn achosion PLC a Chyllid o dan yr opsiwn hwn.

- 3.31 Rhoddir manylion y ffioedd gwrandawriad sefydlog atodol a fyddai'n daladwy ar gyfer achosion cyfraith deuluol gyhoeddus o dan yr opsiwn hwn yn *Nhabl 4* isod.

Tabl 4: Gwrandawriadau Cyfraith Gyhoeddus Plant a Chyllid - Ffi atodol arfaethedig

Math o wrandawriad	Ffi
PLC	£53.78
Cyllid	£100.23

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

C6. A ydych yn cytuno y byddai aiddosbarthu'r arian a delir ar hyn o bryd ar ffurf ffioedd atodol am fwndeli llys, yn ffioedd gwrandawriad atodol newydd a fyddai'n daladwy ym mhob achos oedd yn cyrraedd gwrandawriad penodedig, yn ffordd gost niwtral o godi tâl priodol am gymhlethdod yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i PD 27A? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cyfraith Teulu Gyhoeddus

C7. A ydych yn cytuno y dylai'r ffioedd sefydlog atodol newydd arfaethedig fod yn daladwy ond ar gyfer Gwrandawriad Datrys Materion a Gwrandawriad Terfynol? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C8. A ydych yn cytuno y dylid talu ffioedd sefydlog atodol gwahanol mewn achosion o dan y Ddeddf Plant Arbennig ac achosion Cyfraith Gyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cyfraith Teulu Breifat

C9. A ydych yn cytuno y dylai'r ffioedd sefydlog atodol newydd arfaethedig fod yn daladwy ddim ond ar gyfer gwrandawriad lle caiff yr achos ei benderfynu? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Q10. A ydych yn cytuno y dylid talu ffioedd sefydlog atodol gwahanol mewn achosion Cyllid a Chyfraith Breifat sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

- 3.32 Rhoddir manylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffioedd sefydlog o dan yr opsiwn hwn yn **Atodiad A**. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys Asesiad o Effaith cychwynnol llawn.

Achosion nad ydynt yn FAS

- 3.33 Cyflwynwyd y FAS ar 8 Mai 2011 ac mae'r rhan fwyaf o achosion teulu'n cael eu talu o dan y cynllun hwnnw. Mae nifer fach iawn a chynyddol lai o achosion, a ddechreuodd cyn y dyddiad hwnnw, yn cael eu talu o dan gynllun blaenorol - y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Teulu (FGFS)¹⁶. Roedd y cynllun hwn hefyd

¹⁶ Gorchymyn Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Ariannu) (Cwnsel mewn Achosion Teulu) 2001 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2001/1077/contents/made>
Gorchymyn Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Ariannu) (Cwnsel mewn Achosion Teulu) 2007, <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/2443/contents/made>

yn gwneud taliadau bwndel atodol, er enghraifft roedd taliadau gwahanol yn daladwy lle oedd bwndel yn cyrraedd 176 neu 351 o dudalennau, gyda gwahanol ffioedd yn daladwy am wahanol fathau o wrandawriad. Gan hynny, byddai'r achosion hyn hefyd yn cael eu heffeithio gan y trothwyon arfaethedig ar faint bwndeli llys. Fodd bynnag, mae data ariannol mewnol gan yr LAA yn awgrymu bod nifer yr achosion a dalwyd o dan y cynllun hwn wedi lleihau'n sylweddol yn 2013, o 14% o hawliadau gan eiriolwyr ym Mawrth 2013 i 7% erbyn Ionawr 2014 wrth i'r achosion hyn ddod i ben. Rydym yn disgwyl i'r nifer o achosion FGFS leihau fwy fyth dros y misoedd nesaf wrth i'r Llys Teulu newydd ddod i rym a'r ymgyrch i gyflymu penderfynu achosion barhau. O ystyried y lleihad parhaus yn nifer yr achosion a delir o dan y cynllun hwnnw, ni chynigir gwneud newidiadau i'r cynllun hwnnw.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

C11. A ydych yn cytuno y byddai'n anghymesur newid y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Teulu? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Gweithredu

3.34 Os cyflwynir y diwygiadau hyn, disgwylir iddynt gael eu gweithredu drwy newidiadau i gontractau'r LAA ac i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013, fel bo angen, nes ymlaen eleni.

Darpariaethau pontio

- 3.35 Disgwylir y bydd y diwygiadau arfaethedig i PD 27A yn berthnasol ym mhob achos, gan gynnwys mewn achosion a gychwynnodd yn barod. Gan hynny, byddai'r cyfyngiadau arfaethedig ar faint bwndeli a'r newid o ganlyniad i ffioedd bwndel atodol yn dod i rym ar unwaith ym mhob achos ar ôl iddynt gychwyn. Disgwylir na chaiff hyn unrhyw effaith ar y symiau a fyddai eiriolwyr yn eu derbyn o dan Opsiwn 1 o'i gymharu â'r taliadau presennol.
- 3.36 Fodd bynnag, o gofio bod Opsiwn 2 o reidrwydd yn golygu ailddosbarthu'r gwariant presennol ar daliadau atodol am fwndeli llys yn ffioedd gwrandawriad atodol, er mwyn osgoi gwneud gordaliadau, ni fyddai eiriolwr a dderbyniodd dâl atodol interim am fwndel llys mewn achos cyfraith gyhoeddus o dan y cynllun presennol yn gymwys hefyd i dderbyn y ffi atodol arfaethedig am Wrandawriad Datrys Materion yn yr achos hwnnw. Fodd bynnag, byddai ffi atodol am Wrandawriad Terfynol yn dal yn daladwy ym mhob achos a fyddai'n cyrraedd y gwrandawriad hwnnw ar ôl y dyddiad cychwyn.
- 3.37 Yng nghyd-destun achosion cyfraith breifat, dim ond un tâl a fyddai'n cael ei dalu sef yn y gwrandawriad lle caiff yr achos ei benderfynu. Er mwyn sicrhau dull cyson ar draws pob gwahanol fath o achos, byddai'r ffi gwrandawriad atodol newydd a gynigir o dan Opsiwn 2 yn daladwy ym mhob achos cyfraith breifat oedd wedi cau ar ôl y dyddiad cychwyn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun.

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. bargyfreithiwr, cyfreithiwr etc)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni / sefydliad (lle bo'n berthnasol)	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn.	Ticiwch y blwch <input type="checkbox"/>
Y cyfeiriad ar gyfer anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, cofiwch ddweud wrthym beth yw enw'r grŵp a rhwch grynodedeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

--

Manylion cyswllt / Sut i ymateb

I'w gwneud yn haws i chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac i helpu'r Llywodraeth i ddadansoddi'r ymatebion y mae'n eu derbyn, byddem yn annog ymatebwyr i ddefnyddio'r offeryn ymgynghori ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Neu gallwch anfon eich ymateb yn electronig drwy e-bost at Christine Okiya Christine.Okiya@justice.gsi.gov.uk.

Cyhoeddi'r ymatebion

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr haf 2014. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Grwpiau Cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol, wrth ymateb, roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin eich gwybodaeth yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â fo ac sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a roesoch inni i fod yn wybodaeth gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd ichi y gallwn gadw'r cyfrinachedd hwnnw bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti.

Egwyddorion ymgynghori

Dylid ymateb i'r ymgynghoriad yn defnyddio'r arolwg ar-lein. Ond os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch proses yr ymgynghoriad, dylech ffonio Sheila Morson ar 020 3334 4498, neu anfon e-bost at consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Ministry of Justice
Consultation Coordinator
Better Regulation Unit
Analytical Services
7th Floor, 7.02
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Atodiad A: Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerth y ffioedd gwrandawriad sefydlog atodol a gynigir o dan opsiwn 2.

Trosolwg

1. Er mwyn modelu'r taliadau sefydlog newydd a gynigir o dan Opsiwn 2, cafodd y gwariant ar daliadau bwndel interim a therfynol o dan y cynllun FAS presennol ei gyfrifo ac yna ei ailddosbarthu ar draws achosion wedi cau dros yr un cyfnod. Cafodd werth y taliadau newydd o dan bob opsiwn ei bennu yn ôl nifer y taliadau gwrandawriad interim a therfynol perthnasol yng nghyswllt yr achos.
2. Mae'r Atodiad hwn yn cyflwyno'r data a ddefnyddiwyd, y tybiaethau a wnaed a sut cafodd y gwaith modelu ei wneud i gyfrifo gwerth y ffioedd sefydlog atodol newydd a gyflwynir yn y brif ddogfen ymgynghori. Mae Asesiad o Effaith llawn a chychwynnol yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/> sy'n nodi sut bydd y newid yn effeithio ar daliadau mewn achosion unigol.

Data a'r Prif Dybiaethau

3. Mae data gweinyddol yr LAA ar wariant o dan y FAS ar gael ar achosion a gychwynnodd rhwng 9 Mai 2011 a diwedd Tachwedd 2013. Er mwyn cael gwerth blwyddyn o ddata ar achosion wedi cau, cafodd y gwaith modelu ei wneud ar bob achos a gychwynnodd rhwng 9 Mai 2011 a 8 Mai 2012, gan olrhain gwariant tan fis Rhagfyr 2013, er mai data ar achosion SCA yn unig yw hwn¹⁷. Cafodd 'achosion wedi cau' eu dosbarthu fel pob achos gyda dyddiad bil terfynol neu daliad gwrandawriad terfynol. Ni chafodd achosion agored heb wrandawriad terfynol eu cynnwys yn y dadansoddiad oherwydd bod gormod o ansicrwydd i allu pennu beth fyddai'r bil terfynol ar gyfer yr achosion hyn. Mae'r dosbarthiad ehangach o 'achosion wedi cau' yn cynnwys 92% o achosion cyhoeddus a gychwynnwyd dros y cyfnod ac 81% o achosion cyfraith breifat.
4. Mae data'r FAS yn cynnwys achosion gyda thystysgrifau lluosog - sef achosion lle mae plant lluosog yn gofrestredig ar un achos. I bwrpas y dadansoddiad, cafodd tystysgrifau lluosog eu cyfuno gan eithrio unrhyw achosion lle'r oedd o leiaf un dystysgrif y tu allan i ddyddiadau'r dadansoddiad.
5. O dan PLO 2014, disgwylir i achosion gael eu cywasgu'n 3 gwrandawriad yn unig: Gwrandawriad Rheoli Achos (CMH), Gwrandawriad Datrys Materion (IRH) a Gwrandawriad Terfynol (FH). Fodd bynnag, oherwydd bod achosion presennol yn aml yn arwain at fwy na thri gwrandawriad, bu'n rhaid gwneud tybiaethau ynghylch pa achosion fyddai'n arwain at ba wrandawriadau o dan y PLO diwygiedig er mwyn gallu modelu pa achosion fyddai'n derbyn y ffioedd sefydlog. Felly, defnyddiwyd y tybiaethau canlynol:

¹⁷ Ar gyfer SCA, yr unig ddata sydd ar gael yw ar gyfer achosion a gychwynnodd rhwng 9 Mai 2011 a 31 Ionawr 2012 ac a gafodd eu cau cyn Rhagfyr 2013.

- y byddai achosion gydag o leiaf un taliad gwrandawriad interim yn cael Gwrandawriad Rheoli Achos;
- y byddai achosion gyda mwy nag un taliad gwrandawriad interim yn cael Gwrandawriad Rheoli Achos a Gwrandawriad Datrys Materion; a
- y byddai achosion gyda thaliad gwrandawriad terfynol yn cael Gwrandawriad Terfynol.

Lle mae achos yn setlo yn y gwrandawriad interim ac yn cael ei dalu ar gyfradd gwrandawriad terfynol, bydd yn cael ei filio fel gwrandawriad terfynol ac yn cael ei drin felly yn y dadansoddiad.

6. Mewn achosion Cyfraith Breifat (PLC) sy'n ymwneud â phlant, gall y Gwrandawriad Canfod Ffeithiau hefyd dderbyn tâl bwndel ar sail cyfradd y gwrandawriad terfynol. Yn ogystal, lle mae gan achos cyfraith breifat wrandawriadau terfynol ar wahân ar gyfer materion Cyllid a Phlant, mae'n bosibl i ddau daliad bwndel terfynol gael ei wneud. Felly, mae'r un rheolau wedi eu cymhwyso i'r taliad sefydlog atodol newydd fel y byddai'r ffi newydd yn cael ei thalu ddwywaith lle mae dau neu fwy o wrandawriadau terfynol mewn achosion PLC (oherwydd y byddai'r achos yn cael Gwrandawriad Canfod Ffeithiau a Gwrandawriad Terfynol) a / neu lle mae achos yn cael gwrandawriadau terfynol ar wahân ar gyfer materion Cyllid a Phlant.
7. Dim ond achosion 'o fewn sgôp neu'n rhannol o fewn sgôp' yn dilyn y newidiadau i'r LASPO yn Ebrill 2013 y mae'r dadansoddiad o achosion preifat yn ei gynnwys. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys achosion 'y tu allan i sgôp' yn dilyn y newidiadau.

Dadansoddiad a Chanlyniadau

8. Cam cyntaf y dadansoddiad oedd cyfrifo'r gwariant ar fwndeli mewn achosion y cawsant eu cynnwys yn y sampl. Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn *Nhabl 1* gan ddangos bod £4.5m ar gael i'w ailddosbarthu mewn achosion SCA, £0.3m mewn achosion OPC ac ychydig o dan £0.1m mewn achosion cyfraith breifat (achosion PLC a Chyllid)¹⁸.

Tabl 1: Gwariant Presennol ar Fwndeli; achosion wedi cau a gychwynnodd rhwng 9 Mai 2011 a 8 Mai 2012 (9 Mai 2011 – 31 Ion 2012 ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat)

	Interim	Terfynol	Cyfanswm
SCA (miloedd)	£1,343	£3,196	£4,540
OPC (miloedd)	£84	£197	£281
PLC (miloedd)	£19	£48	£66
Cyllid (miloedd)	£3	£6	£9

9. Ail gam y dadansoddiad oedd cyfrifo nifer yr achosion a fyddai'n derbyn yr opsiynau taliadau sefydlog newydd. Mae *Tabl 2* yn cyflwyno nifer yr achosion y disgwyli'r iddynt gael Gwrandawriad Datrys Materion (IRH) neu Wrandawriad Terfynol (FH), ar

¹⁸ Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r ffigur o £7m sydd wedi'i ddyfynnu mewn lle gwahanol oherwydd amcan-ffigur blynyddol yw hwn sy'n seiliedig ar yr holl achosion ar agor ac wedi cau yn hytrach na'r achosion yn y sampl yn unig.

gyfer cyfraith gyhoeddus. Fel yr eglurir uchod, mae'r ffigurau'n seiliedig ar ddata ar daliadau achos presennol lle mae achosion gydag IRH yn unrhyw achos gydag o leiaf dau wrandawriad interim, a lle mae achosion gyda Gwrandawriad Terfynol yn unrhyw achos gyda thaliad gwrandawriad terfynol ar ei gyfer.

Tabl 2: Nifer yr achosion (cyfraith gyhoeddus) gyda gwrandawriadau perthnasol; achosion wedi cau a gychwynnodd rhwng 9 Mai 2011 a'r 8 Mai 2012 (9 Mai 2011 – 31 Ion 2012 ar gyfer achosion SCA)

	Gwrandawriad Datrys Materion	Gwrandawriad Terfynol
SCA	17,973	17,581
OPC	1,768	1,664

10. Mae *Tabl 3* yn rhoi nifer yr achosion gydag o leiaf un Gwrandawriad Terfynol ar fater Cyllid, a nifer yr achosion gyda Gwrandawriad Terfynol ar fater Plant Cyfraith Breifat. Rhennir yr achosion PLC yn ôl a oes gan achos ond un gwrandawriad terfynol, neu o leiaf dau. Mae'r *Tabl* felly'n rhoi nifer y gwrandawriadau terfynol y byddai'r ffi sefydlog newydd yn cael ei thalu ar eu cyfer, oherwydd mae'n bosibl i un achos gael ei dalu am wrandawriad Cyllid a Phlant, ac mae'n bosibl talu dau daliad bwndel lle mae o leiaf dau neu fwy o wrandawriadau Plant.

Tabl 3: Nifer yr achosion cyfraith breifat gyda gwrandawriadau perthnasol a nifer y gwrandawriadau lle byddai'r ffi sefydlog newydd yn berthnasol; achosion wedi cau a gychwynnodd rhwng 9 Mai 2011 a'r 8 Mai 2012

Categori	Un Gwrandawriad Terfynol	Dau Wrandawriad Terfynol	Gwrandawriadau Perthnasol
PLC	857	189	1,235
Cyllid	88	Amherthnasol	88

11. Mae'r fffioedd sefydlog newydd wedi eu cyfrifo drwy gymryd y gwariant ar fwndeli yn *Nhabl 1* a'i rannu â nifer yr achosion / gwrandawriadau y bydd y gwariant yn cael ei ddyrannu ar eu traws yn *Nhablau 2 a 3*. Er enghraifft, ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus, byddai'r gwariant bwndel interim yn cael ei ddyrannu i unrhyw achos gyda Gwrandawriad Datrys Materion. Felly, cafodd y gwariant bwndel interim mewn achosion SCA (£1.3m) ei rannu â nifer yr achosion gyda gwrandawriad datrys interim (17,973) i gyfrifo'r taliad sefydlog newydd o £74.73.
12. Cyflwynir gwerthoedd y taliadau sefydlog newydd yn *Nhabl 4*. Ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus, mae'r gwariant bwndel interim wedi'i ddyrannu i achosion gyda Gwrandawriad Datrys Materion a'r gwariant bwndel terfynol i achosion gyda Gwrandawriad Terfynol. Ar gyfer Cyfraith Breifat, mae'r gwariant bwndel ar Wrandawriadau Terfynol wedi'i ddsbarthu ar draws nifer yr achosion gyda Gwrandawriad Cyllid Terfynol ac mae'r gwariant bwndel ar wrandawriadau PLC wedi'i ddsbarthu ar draws nifer y gwrandawriadau PLC perthnasol fel y nodir yn *Nhabl 3*.

Tabl 4: Gwerthoedd y taliadau sefydlog newydd

	Taliad CMH	Taliad IRH	Taliad Terfynol
SCA	Amherthnasol	£74.73	£181.81

OPC	Amherthnasol	£47.74	£118.35
PLC	Amherthnasol	Amherthnasol	£53.78
Cyllid	Amherthnasol	Amherthnasol	£100.23

Risgiau / Cyfyngiadau

13. Mae'r opsiynau wedi eu cyflwyno a'r dadansoddiad wedi'i wneud i gadw'r FAS yn gost niwtral. Fodd bynnag, mae risg y gallai'r gwariant amrywio o dan y taliadau sefydlog newydd o'i gymharu â'r gwariant presennol ar fwndeli. Cyflwynir y prif risgiau i'r dadansoddiad hwn isod:
- Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar y cymysgedd presennol o achosion sydd wedi cau. O dan y PLO diwygiedig, gallai cymysgedd y gwrandawiadau mewn achos amrywio, gan felly amrywio faint fyddai'n cael ei wario ar y taliadau sefydlog newydd o'i gymharu â'r gwariant presennol ar fwndeli.
 - Bydd achosion sydd ar hyn o bryd yn setlo yn y gwrandawriad interim ac yn cael eu talu ar sail cyfradd gwrandawriad terfynol yn cael eu bilio fel gwrandawiadau terfynol ac yn cael eu trin felly yn y dadansoddiad. Oherwydd nad oes 'baner' i ddangos faint o achosion sy'n setlo yn y gwrandawriad interim, mae risg y gallai'r dadansoddiad roi gor-amcan o nifer y Gwrandawiadau Datrys Materion y byddai'r gwariant bwndel yn cael ei ailddosbarthu ar eu cyfer. Mae hyn oherwydd, yn y dadansoddiad, os yw achos yn cael o leiaf dau wrandawriad interim a gwrandawriad terfynol, byddai achosion yn cael eu trin i fod wedi cael CMH, IRH ac FH ond bwriad y PLO yw na fyddai achosion sy'n setlo yn yr IRH yn cael dim mwy na dau wrandawriad. Gallai hyn olygu llai o wario ar y FAS nag ar hyn o bryd pe bai achosion sy'n setlo yn y gwrandawriad interim yn cael llai o wrandawiadau nag ar hyn o bryd.
 - Oherwydd mai ond ym mis Mai 2011 y dechreuodd y FAS, mae rhai achosion a gychwynnodd rhwng Mai 2011-2012 na fydd wedi cau ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae achosion a ddsberthir fel 'agored' yn rhai lle nad yw'r bil terfynol wedi'i gyflwyno i'r LAA eto ac nid oes gwrandawriad terfynol ar gyfer yr achos, felly mae ansicrwydd p'un ai a allai'r achosion hyn fod yn ddrutach neu'n rhatach na'r achosion sydd wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad. Gan mai achosion cyfraith gyhoeddus yw'r rhan fwyaf o achosion teulu – ac mae'n fwy tebyg y byddant yn cael taliad bwndel – mae'r 8% o achosion agored yn fwy tebygol o effeithio ar y risg i'r gronfa cymorth cyfreithiol/eiriolwyr. Er bod 19% o achosion preifat yn dal ar agor, mae'r risg yn is i'r gronfa cymorth cyfreithiol/eiriolwyr o beidio â'u cynnwys yn ein dadansoddiad, oherwydd mae achosion preifat yn llai tebyg o gyrraedd gwrandawriad terfynol neu arwain at daliad bwndel. Ond mewn cyfraith teulu gyhoeddus a phreifat, mae cap ar nifer y taliadau bwndel atodol y gellir eu hawlio mewn achos, sy'n cyfyngu'r graddau y gallai achosion agored ystumio gwerth y ffi sefydlog newydd.
 - Petai gwariant ar fwndeli mewn achosion agored yn sylweddol uwch neu is o'i gymharu ag achosion wedi cau, yna gallai hynny arwain at enillion neu golledion cronus i'r gronfa cymorth cyfreithiol/eiriolwyr. Fodd bynnag, ystyrir bod y risg hon yn fach oherwydd bod y dadansoddiad yn cynnwys unrhyw achosion a gychwynnodd rhwng Mai 2011-2012 ac sydd wedi cau neu wedi cael

gwrandawriad terfynol cyn Rhagfyr 2013. Felly, mae eisoes wedi cynnwys llawer o achosion a barodd amser hir.

© Hawlfraint y Goron 2014
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

**Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill
drwy wneud cais i Christine.Okiya@justice.gsi.gov.uk**